# Cofnodion

## Cabinet

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mercher, 9 Mawrth 2022 |
| Amser: | 4.00 pm |
| Lleoliad: | Cynghorwyr J Mudd (Cadeirydd), Councillor R Jeavons, J Hughes, P Cockeram, D Harvey, D Mayer, Councillor R Truman and D Davies |

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr

---

1 **Ymddiheuriadau dros Absenoldeb**

Ni dderbyniwyd yr un

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Datganodd y Cynghorwyr Jeavons a Davies eu bod yn aelodau o Fwrdd SW GCA.

3 **Cofnodion y Cyfarfod Diweddaf**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 18 Chwefror 2022 fel rhai cywir.

**Materion yn Codi**

Yr oedd yr Arweinydd yn falch iawn i gadarnhau fod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gais i newid cwmpas cyllid yr Amlinelliad o Raglen Strategol (ARS) gyffredinol ar gyfer rhaglen Band B y Cyngor.

O ganlyniad, byddai rhaglen newydd gwerth £10m yn cael ei hychwanegu at y rhaglen i gynnal gwaith yn Ysgol Gynradd St Andrews i gymryd lle'r adeilad Cyfnod Allweddol 2 nad oedd yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd oherwydd problemau strwythurol y sylwyd arnynt yn nhymor y gwanwyn 2021.

Byddai swyddogion yn y Gwasanaeth Addysg yn gweithio gyda'n cydweithwyr yng Nghasnewydd Norse i ddatblygu dyluniadau am ateb parhaol ar y safle o fewn y cyllid hwn, gyda golwg ar gael disgyblion Cyfnod Allweddol 2 i ddychwelyd i'r safle o Fedi 2023 ymlaen.

Yn y cyfamser, diolchodd yr Arweinydd i Gasnewydd Fyw am ganiatáu defnyddio'r Ganolfan Gyswllt fel safle dros dro i'r disgyblion, a diolchodd i gymuned yr ysgol am eu cefnogaeth gyson a'u gwytnwch.

Yr oedd yr Arweinydd yn siŵr y cytunai'r Cabinet fod hyn yn newyddion gwych, a bod y Cabinet yn edrych ymlaen at y dyfodol agos pan fydd yr ysgol gyfan yn dychwelyd i un safle.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

- Teimlai'r Cynghorydd Jeavons ei bod yn newyddion gwych y byddai holl ddisgyblion a staff yr ysgol yn ôl ar un safle. Yr oedd yn drueni y byddai'n rhaid dymchwel yr adeilad ar Heol y Gorfforaeth, ac yr oedd yn deyrnged i seilwaith y gymuned. Er hynny, byddai'r adeilad newydd sbon yn ychwanegiad i'w groesawu yn Lliswerry.

- Adleisiodd y Cynghorydd Davies sylwadau'r Dirprwy Arweinydd a diolchodd i'r swyddogion fu'n rhan o'r prosiect yn ogystal â LIC oedd wedi darparu'r cyllid, oedd i'w groesawu. Yr oedd yr adeilad yn rhan o Ysgolion yr 21ain Ganrif, ac yn addas at ddiben disgyblion St Andrews.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau am eu cefnogaeth gyson.

4 **Cynllun Busnes Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) 2022/25**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i'r Cabinet. Byddai'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) yn dosbarthu fersiwn derfynol y cynllun yn ystod yr wythnos yn cychwyn 21 Chwefror.

Cytunodd aelodau'r Cyd-Grŵp Gweithredol (CGG) y dylai'r GCA symud i fodel o Gynllun Busnes tair-blynedd, gyda chyfoesiad blynyddol manwl i'r Aelodau gytuno arno, yn ôl gofynion Cytundeb Cydweithredu ac Aelodau (CCAA).

Yn ychwanegol at gyfarfodydd rheolaidd CGG, byddai uwch-staff GCA yn mynychu cyfarfodydd sicrhau ansawdd misol gyda swyddogion yr Awdurdod Lleol, oedd yn rhoi gwersi proffesiynol i lywodraethwyr ysgolion, a'r rhain yn cael eu hysbysebu trwy'r GCA.

Ymysg pynciau penodol i Gasnewydd a gyflwynwyd yn ystod tymor hydref 2021 a thymor gwanwyn 2022 yr oedd:

- Cyfrifoldebau Rheoli Ariannol
- Diogelu ar gyfer Llywodraethwyr Dynodedig/Cadeiryddion Llywodraethwyr
- Rheoli Gwahardd Disgyblion o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion
- Cefnogi dysgwyr sy'n siarad Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY)
- Cefnogi Plant Milwyr/Aelodau o'r Lluoedd Arfog yn eich ysgol

Yr oedd cynnig cyffredinol o gefnogaeth dysgu proffesiynol ar gael i ysgolion ym mhob un o'r meysydd canlynol:

- Gwella Ysgolion
- Arweinyddiaeth a Dysgu
- Cwricwlwm i Gymru
- Iechyd, Lles a Chydraddoldeb
- Llywodraethwyr Ysgolion.

Yr oedd cefnogaeth ychwanegol hefyd ar gael i ysgolion, wedi ei deilwrio i gwrdd ag anghenion penodol

- Mae ysgolion yn derbyn nifer penodedig o ddyddiau i weithio gyda'u Partner Gwella Ysgol (PGY) a chynnal deialog broffesiynol gyda'r GCA a'r ALl i gytuno ar a/neu newid eu blaenoriaethau

gwella a gofynion cefnogi.

- Byddai cefnogaeth unswydd ar gael hefyd i ysgolion sydd angen cefnogaeth fwy dwys. Y mae hyn yn cynnwys mwy o gefnogaeth gan y PGY neu ddefnyddio Partneriaeth Ysgol i Ysgol y Rhwydwaith Dysgu. Nid oedd dyraniad penodol i'r gefnogaeth hon.

Dyma'r Blaenoriaethau Drafft i Gasnewydd:

- Datblygu a gweithredu'r cwricwlwm newydd

- Sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

- Arolygiad Estyn R1: Gwella perfformiad cyffredinol ysgolion uwchradd

- Arolygiad Estyn R2: Lleihau'r amrywiaeth o ran cynnydd/deilliannau i ddisgyblion cymwys am Brydau Ysgol am Ddim a'r rhai heb fod yn gymwys

- Adolygiad Thematig Estyn: Datblygu agwedd gydlynus i wella cynnydd mewn llythrennedd, rhifedd a sgiliau personol a chymdeithasol disgyblion yr effeithiwyd yn anghymesur arnynt gan y pandemig, er enghraifft, disgyblion cymwys am brydau ysgol am ddim

- Adolygiad Thematig Estyn: Sefydlu strategaethau i fonitro ac ymdrin ag effaith tymor-hir y pandemig ar iechyd corfforol a meddyliol disgyblion

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Dywedodd y Cynghorydd Davies fod y cynllun busnes yn fodel, ac yr oedd yn croesawu, agwedd sensitif at well ysgolion Casnewydd. Cydnabu hefyd fod y pandemig yn her i'r modd y cynhaliwyd addysg. Yr oedd y cynllun busnes yn datgan yn glir y byddai'r holl ysgolion yn gweld gwelliant ac yn cefnogi athrawon. Yr oedd y GCA wedi ymrwymo i gynnal adolygiad o bob awdurdod, ac yr oedd yr Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau felly yn cefnogi'r adroddiad.

- Soniodd y Cynghorydd Harvey mai da o beth oedd gweld fod bron i 800 o lywodraethwyr ysgolion, a bod hyn yn dystiolaeth o'u hymrwymiad i gefnogi eu hysgolion. Yr oedd y rhaglen hyfforddi yn gynhwysfawr iawn.

- Yr oedd y Cynghorydd Jeavons, fel aelod o'r bwrdd a Dirprwy Arweinydd, eisiau diolch i'r GCA am yr adroddiad ac adleisiodd sylwadau ei gydweithwyr yn y Cabinet.

Gwahoddodd yr Arweinydd Ed Pryce, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaeth Cyrhaeddiad Addysg De-Ddwyrain Cymru, i ddweud gair.

Diolchodd Ed Pryce i'r Aelodau Cabinet am eu sylwadau, ac ychwanegodd y bydd yr adroddiad terfynol ar gael trwy'r Gwasanaethau Democrataidd. Yr oedd oblygiadau adnoddau i'r elfen ariannol, a byddid yn dal i gyllido ysgolion a pharhau i gwrdd â'r cyfraddau dirprwyo uchel.

Diolchodd yr Arweinydd i Ed Pryce am ei bresenoldeb, a werthfawrogwyd gan y Cabinet.

**Penderfyniad:**

Fod y Cabinet

- Yn derbyn yr adroddiad er gwybodaeth ac yn manteisio ar y cyfle i wneud sylwadau am gynnwys y Cynllun Busnes fel rhan o'r broses ymgynghori; ac
- Ystyried beth oedd y prif gryfderau a'r meysydd datblygu i Gasnewydd, ac ystyried sut y gellid asio gwasanaethau'r ALI gyda'r blaenoriaethau yn y ddogfen, gan sicrhau fod pob disgybl yn cyrraedd ei lawn botensial.

5 **Diwygiadau i Gytundeb Cydweithrediad ac Aelodau EAS De-ddwyrain Cymru (CAMA)**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, gan esbonio i gydweithwyr y bu CCAA (Cytundeb Cydweithrediad ac Aelodau) ar gael ers 2012 pan ddechreuodd y GCA. Diwygiad oedd hwn i'r cytundeb wedi 10 mlynedd.

Yr oedd y CCAA yn disgrifio'r cytundeb rhwng y *Gwasanaeth Cyrhaeddiad Addysg (*GCA) a'r pum awdurdod lleol (Casnewydd, Torfaen, Sir Fynwy, Caerffili a Blaenau Gwent).

Yr oedd Bwrdd Cwmni GCA yn gofyn am gyfoesiad i'r CCAA am i'w model cyllido newid dros y ddegawd a aeth heibio. Ers dechrau'r GCA, yr oedd llai o staff craidd yn cael eu cyflogi, a chyfradd uwch o ddirprwyo cyllid i ysgolion.

Yn gyfreithiol, rhag i'r cwmni fynd yn fethdalwr, rhaid oedd i Fwrdd Cwmni GCA gadw 50% o'r gwariant yr oeddent yn gyfrifol amdano.

Yr oedd y CCAA newydd yn dweud yn glir y byddai unrhyw gostau diswyddo staff GCA yn y dyfodol yn cael eu talu o arian GCA os byddai'r gronfa yn uwch na 50% o'r gwariant yr oeddent yn gyfrifol amdano. Pe na bai digon o arian, byddai'r pum ALI yn talu cyfran o'r costau. Dyma oedd y disgwyliad arferol i bartneriaeth oedd yn cael ei chyllido ar y cyd.

Yr oedd lefel y risg yn isel gan fod y GCA wedi lleihau nifer staff contract yn sylweddol. Yr oedd penaethiaid yn gweithio fel 'Partneriaid Gwella ysgol' oedd yn cefnogi gweithio 'ysgol i ysgol' ac yn caniatáu i ysgolion gynhyrchu incwm a chadw mwy o arian.

Yr oedd gan Cyd-grŵp y Swyddogion, gydag Aelod Cabinet o bob awdurdod lleol, rôl o ran gwerthuso strwythurau staff y GCA a chronfa wrth gefn benodol a sefydlwyd yng Nghasnewydd i reoli unrhyw gostau diswyddo nas rhagwelwyd ond y cytunwyd arnynt i'r GCA, petai eu hangen. Petai un o'r awdurdodau lleol yn penderfynu tynnu'n ôl o'r GCA, byddent yn gyfrifol am 100% o'r costau diswyddo cysylltiedig.

Yr oedd y cytundeb diwygiedig hwn yn bwysig iawn am ei fod yn galluogi'r GCA, fel Cwmni Hyd Braich, i gael sefydlogrwydd ariannol heb i'r awdurdodau lleol unigol orfod sefydlu gwasanaethau gwella ysgolion drud ar wahân.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

- Cefnogodd y Cynghorydd Davies yr argymhelliad am y costau diswyddo mewn egwyddor, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

**Penderfyniad:**

Cytunodd y Cabinet i'r geriad diwygiedig ym mharagraff 1.11, gan gytuno fod Cyngor Dinas Casnewydd (fel un o'r pum awdurdod lleol) yn talu pro rata gostau diswyddo GCA fyddai weddill, wedi i'r cwmni ddefnyddio 50% o'u harian wrth gefn oedd ar ôl ers y flwyddyn flaenorol i dalu rhan gyntaf y costau diswyddo hyn.

6 **Cofrestr Risg Corfforaethol - Chwarter 3**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad am gyfoesi Cofrestr Risg Corfforaethol y Cyngor am ddiwedd Chwarter Tri, 1 Hydref 2021 tan 31 Rhagfyr 2021.

Gofynnwyd i aelodau'r Cabinet ystyried cynnwys yr adroddiad hwn a pharhau i fonitro'r risgiau hyn a'r camau oedd yn cael eu cymryd i ymdrin â'r risgiau a nodir yn yr adroddiad.

Mae Polisi Rheoli Risg a Chofrestr Risg Corfforaethol y Cyngor yn galluogi'r weinyddiaeth hon a'i swyddogion i fod yn effeithiol wrth nodi, rheoli a monitro'r risgiau hynny a allai atal y Cyngor rhag cyflawni ei amcanion yn y Cynllun Corfforaethol (2017-22) a chyflawni ei ddyletswyddau statudol fel awdurdod lleol.

Byddai'r adroddiad risg Chwarter Tri yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio'r Cyngor ar ddiwedd Mawrth (2022) i adolygu prosesau rheoli risg y Cyngor a'i drefniadau llywodraethiant.

Ar ddiwedd chwarter tri, yr oedd gan y Cyngor 44 risg wedi eu cofnodi ar draws wyth maes gwasanaeth y Cyngor.

Cafodd y risgiau hynny a bennwyd fel rhai'r mwyaf arwyddocaol o ran cyflwyno Cynllun Corfforaethol y Cyngor a'i wasanaethau eu codi i Gofrestr Risg Corfforaethol y Cyngor er mwyn eu monitro.

Ar ddiwedd chwarter dau, cofnodwyd 18 risg ar y Gofrestr Risg Corfforaethol:

- Deg Risg Ddifrifol (15 i 25);
- Pum Risg Fawr (7 i 14);
- Dwy Risg Ganolig (4 i 6); ac
- Un Risg Isel (1 i 3).

O gymharu â chwarter dau, yr oedd 16 risg wedi aros ar yr un sgôr risg gyda dwy sgôr risg yn gostwng:

- Clefyd Marwolaeth yr Ynn - Ers i'r Cyngor gychwyn ar eu rhaglen waith i symud ymaith goed oedd â'r clefyd, aeth y sgôr risg i lawr o 20 i 16. Yr oedd cyflwyno'r gwaith hwn yn cael ei asesu bob chwarter, a phlannu coed newydd yng Nghasnewydd.
- Cydbwyso cyllideb tymor-canol y Cyngor - Derbyniodd y Cyngor ei setliad cyllido 2022/23 gan Lywodraeth Cymru yn ogystal â dyraniadau cyllido dangosol am y ddwy flynedd ganlynol. Yr oedd ffigwr setliad 22/23 yn fwy cadarnhaol na'r hyn a ragwelwyd, a chymeradwywyd cyllideb y Cyngor am 22/23. Yr oedd y cynllun ariannol tymor-canol

cyffredinol yn fras yn cydbwyso, ond gallai pwysau ychwanegol ymddangos ac arwain at fwlch cyllidebol.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Davies at ddau farc risg coch yn erbyn gwasanaethau addysg. Yr oedd a wnelo hyn â'r gal' am gefnogaeth ADY ac AAA mewn ysgolion, a bu hyn yn bryder cyson yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, gyda newidiadau deddfwriaethol a wnaed gan LIC. Y risg allweddol arall oedd gwasanaethau ariannol, ond gyda'r buddsoddiad o £8.1M, yr oedd yr Aelod Cabinet yn hyderus y gallwn gyflwyno gwell gwasanaeth.

- Yr oedd y Cynghorydd Jeavons yn falch fod sgôr Clefyd Marwolaeth yr Ynn wedi gostwng o 20 i 13, a diolchodd Wasanaethau'r Cyngor a'r partneriaid arbenigol oedd yn symud y coed hyn.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Cockeram at y gwasanaethau cymdeithasol a'r broblem staffio ledled Cymru a'r DU. Byddai'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ysgrifennu at y Gweinidog am broblemau gyda thalu staff, gan na all Cynghorau gystadlu gyda'r sector gofal iechyd.

Diolchodd yr Arweinydd i'r staff am eu gwaith caled yng nghartrefi gofal Cyngor Dinas Casnewydd, a'u cyfraniad a'u gwytnwch eithriadol.

**Penderfyniad:**
Ystyriodd y Cabinet gynnwys cyfoesiad chwarter dau y Gofrestr Risg Corfforaethol.

7 **Cynllun Newid Hinsawdd**

Yr oedd yr Arweinydd yn falch o gyflwyno ein Cynllun Newid Hinsawdd sefydliadol i gydweithwyr.

Newid Hinsawdd oedd un o heriau byd-eang ein cenhedlaeth, ac y mae angen dybryd i'r byd ddad-garboneiddio, cyfyngu ar y codiad yn nhymheredd y byd, a lliniaru effeithiau gwaethaf newid hinsawdd. Yr oedd angen i'r byd hefyd ymaddasu i effeithiau newid hinsawdd yn awr ac yn y dyfodol.

Fel sefydliad cyfrifol yn fyd-eang, datganodd y Cyngor argyfwng ecolegol a hinsawdd ym mis Tachwedd, gan ddweud y byddwn yn gwneud y canlynol:

Datblygu cynllun sefydliadol Newid Hinsawdd clir, trwy ymgynghoriad â'n dinasyddion, am y pum mlynedd nesaf fyddai'n gosod allan y camau mae angen eu cymryd i wneud hyn.

Fel rhan o'r datganiad, fe wnaethom hefyd dweud y byddwn yn:

Lleihau allyriadau carbon y Cyngor i sero net carbon erbyn 2030, ac

Adolygu'r gwasanaethau a ddarperir gan y cyngor i gefnogi taith y ddinas at sero net zero ac ymaddasu i effeithiau newid hinsawdd.

Mae ein Cynllun Newid Hinsawdd yn gosod allan y themâu, blaenoriaethau, camau a'r cerrig milltir oedd eu hangen dros y pum mlynedd nesaf i gyrraedd yr ymrwymiad hwnnw.

Datblygwyd y cynllun gan staff a rheolwyr ledled y cyngor a chraffwyd arno gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ym mis Hydref 2021.

Cynhaliwyd ymgynghoriad llawn â'r cyhoedd ym misoedd Tachwedd a Rhagfyr 2021 pryd y derbyniwyd dros 600 o sylwadau unigol, sydd wedi helpu i lunio'r cynllun ymhellach.

Byddai'r cynllun yn ddogfen allweddol i'r Cyngor at y dyfodol a byddai'n tywys ein taith fel sefydliad i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur a'u heffeithiau.

Gwahoddodd yr Arweinydd yr Aelod Cabinet dros Ddatblygu Cynaliadwy i roi sylwadau.

Soniodd y Cynghorydd Hughes fod y Cyngor wedi gwneud cychwyn da ac eisoes wedi gostwng allyriadau carbon yn sylweddol, gan wneud yn well na'r targedau a osodwyd allan yn ein Cynllun Rheoli Carbon. Arweiniodd hyn at ostyngiad o 29% mewn allyriadau cwmpas 1 a chwmpas 2 dros y tair blynedd a aeth heibio.

Edrychai'r Cynghorydd Hughes ymlaen at fwy o ostyngiad wrth i ni barhau i ôl-ffitio adeiladau'r cyngor, a chynyddu ein fflyd o gerbydau trydan.

Er hynny, yr oedd llawer mwy i'w wneud fel sefydliad i liniaru ac ymaddasu i'r argyfwng hinsawdd a natur, a bydd ein Cynllun Newid Hinsawdd sefydliadol yn ein gosod ar y llwybr iawn ar y daith hon er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu ar ran y genhedlaeth hon a rhai'r dyfodol.

Fel Aelod Cabinet â chyfrifoldeb dros leihau carbon a thros genedlaethau'r dyfodol, yr oedd y Cynghorydd Hughes yn falch o weld y cynllun hwn yn dwyn ffrwyth, a byddai'n monitro cynnydd yn fanwl ac yn gofyn am gyfoesiadau rheolaidd er mwyn sicrhau ein bod yn dal i fwrw ymlaen yn ôl y gofyn.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

- Ychwanegodd y Cynghorydd Davies, fel yr Aelod Cabinet blaenorol dros Ddatblygu Cynaliadwy, ei bod wedi cael tasg gan yr Arweinydd i fwrw ymlaen â'r cynllun ar ddechrau'r pandemig ac ers hynny, fod y Cynllun Newid Hinsawdd wedi datblygu'n sylweddol. Digwyddodd hyn nid yn unig oherwydd cefnogaeth y Cynghorydd Hughes ond hefyd oherwydd cefnogaeth y swyddogion. Diolchodd y Cynghorydd Davies i Tracy McKim, Pennaeth Pobl (Polisi a Thrawsnewid), Emma Wakeham (Uwch-swyddog Polisi a Phartneriaeth) a Ross Cudlipp (Rheolwr Lleihau Carbon) am eu hymwneud a'u gwaith caled oedd wedi strwythuro datblygu hyn yn gynllun gweithredu. Ein cyfrifoldeb corfforaethol oedd bwrw ymlaen â hyn gan y byddai'n cael mwy o effaith gyda chanlyniadau cadarnhaol.

- Teimlai'r Cynghorydd Harvey fod y ddogfen hon yn un ddiddorol oedd yn ymdrin â'r holl faterion sylfaenol ac a allai ond gwella. Ychwanegodd mai mater i ni fel Cyngor oedd gwneud safiad ac amddiffyn yr hyn oedd gennym i'r cenedlaethau i ddod.

- Dywedodd y Cynghorydd Truman fod y ddogfen yn gosod allan dargedau oedd yn rhaid gweithredu arnynt yn syth, gan y byddai cenedlaethau'r dyfodol yn cofio ac yn barnu ein penderfyniadau.

- Dywedodd y Cynghorydd Jeavons ei fod yn adroddiad gwerthfawr, yn amlygu llwyddiannau Cyngor Dinas Casnewydd . Byddai'r gobaith o newid cludiant ysgolion trwy gyflwyno cludiant trydan neu hydrogen yn llwyddiant o'r mwyaf.

Ychwanegodd yr Arweinydd, ar lefel unigol neu ehangwch, fod angen i'r Cyngor weithio'n galed i greu'r newid hwn at y dyfodol. Yr oedd yr Arweinydd yn hynod falch o'r Cyngor a'r hyn y llwyddodd i wneud trwy'r Cynllun Newid Hinsawdd hwn.

**Penderfyniad:**

Cymeradwyodd y Cabinet y drafft o Gynllun Newid Hinsawdd y Cyngor.

8 **Diweddariad Adferiad Covid**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad gan ddweud, ar waethaf yr holl heriau a wynebwyd yng Nghymru a'r byd dros y mis diwethaf, fod Covid yn dal yn bresennol mewn cymunedau.

Er bod achosion yn parhau i ddisgyn, yr oedd effeithiau'r cyfyngiadau dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn dal i gael effaith ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Yr oedd Cymru yn dal ar lefel rhybudd 0 ac o 28 Chwefror , byddai angen mygydau yn unig mewn siopau, ar gludiant cyhoeddus a lleoliadau iechyd a gofal.

Parhaodd Llywodraeth Cymru i gymryd agwedd ofalus ac ym mis Mawrth byddai'n asesu sefyllfa iechyd y cyhoedd ac a ddylid dileu'r gofyniad cyfreithiol i wisgo gorchuddion wyneb erbyn diwedd mis Mawrth.

I Gyngor Casnewydd, y cyngor o hyd i aelodau etholedig a swyddogion i weithio o bell oni bai bod eu rôl yn mynnu i'r gwrthwyneb.

Fel rhan o brosiect Normal Newydd y Cyngor, yr oedd y staff yn cael eu paratoi i weithio'n hybrid, gan sicrhau y bydd ystafelloedd a chyfleusterau ar draws stad y Cyngor yn llefydd addas a diogel i weithio a chynnal swyddogaethau democrataidd. Ychwanegodd yr Arweinydd mai cyfarfod hybrid fyddai cyfarfod y Cabinet ym mis Ebrill.

Yr oedd yr adroddiad hwn ac adroddiad Pontio'r UE yn amlygu'r pwysau a'r ansicrwydd sy'n cael eu hwynebu gan lawer aelwyd ledled Casnewydd a Chymru, gyda'r argyfwng costau byw a achoswyd gan gynnydd mewn costau ynni, bwyd a thanwydd.

Yr oedd Cyngor Casnewydd a Llywodraeth Cymru yn cefnogi aelwydydd a busnesau oedd yn cael trafferth i ymdopi a'r pwysau hyn. Yr oedd Cyngor Casnewydd wedi neilltuo £100,000 yn ychwanegol i daclo tlodi bwyd, cefnogi elusennau a grwpiau bwyd.

Yr oedd y Cyngor hefyd yn cefnogi cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf Llywodraeth Cymru, a oedd wedi ei ymestyn at 28 Chwefror, a'r symiau wedi codi o £100 i £200.

Ychwanegodd yr Arweinydd ei bod yn bwysig fod cynghorwyr yn cefnogi aelwydydd oedd yn cael anhawster, gan eu helpu i ddod o hyd i'r gefnogaeth a'r canllawiau iawn yn ystod yr amser anodd hwn.

- Nod Adfer Strategol 1 – Mae'r tîm gwaith a Sgiliau yn gweithio ar y cyd ag Asiantaeth Recriwtio Acorn i gynnig cyfleoedd i drigolion weithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

- Nod Adfer Strategol 1 –Sicrhaodd Cyngor Casnewydd grant 3 blynedd gan Blant a Chymunedau i gefnogi teuluoedd ledled Casnewydd

- Nod Adfer Strategol 2 – Bydd cwblhau cynlluniau mawr fel y Farchnad Dan Do, Arcêd y Farchnad a Thŵr y Siartwyr yn cynnal adfywio canol y ddinas.

- Nod Adfer Strategol 2 – Dyfarnwyd 18 o grantiau datblygu busnes Dinas Casnewydd

- Nod Adfer Strategol 3 – Gwasanaethau llyfrgell a chymuned yn ôl i'r oriau arferol

- Nod Adfer Strategol 3 - Yr oedd gwasanaethau oedolion yn cefnogi ein trigolion mwyaf bregus yn ystod y stormydd diweddar, gan sicrhau bod ganddynt lety diogel a saff cyn dychwelyd adref.

- Nod Adfer Strategol 4 – Bu prosiectau i wella tai a llety dros dro i'r trigolion yn parhau.

- Nod Adfer Strategol 4 - Gwaith cyfranogol ar y gyllideb yn dyfarnu cyllid tuag at brosiectau ar hyd a lled Casnewydd i helpu cymunedau i adfer o'r pandemig.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

- Manteisiodd y Cynghorydd Truman ar y cyfle i ddiolch i'r holl swyddogion yng Nghyngor Dinas Casnewydd am ei fod ef yn ymddeol ym mis Mai, gan grybwyll yn arbennig swyddogion Safonau Masnach, Trwyddedu ac Amgylcheddol.

  Diolchodd yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr i'r Cynghorydd Truman a phob aelod fyddai'n ymddeol eleni, ar ran swyddogion Cyngor Dinas Casnewydd.

- Adleisiodd y Cynghorydd Davies sylwadau'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr. Yr oedd yr effaith ar y sector iechyd a gofal yn golygu y collwyd gweithwyr allweddol. Yr oedd swyddogion y Cyngor wedi sefydlu rhaglen unswydd i ddenu pobl i'r sector gofal. Yr oedd hyn yn cynnwys mynediad at hyfforddiant am ddim: yr oedd LIC yn mynnu bod pob gweithiwr gofal yn meddu ar gymhwyster cydnabyddedig, a byddai hyn yn cael ei ddarparu gan Gyngor Dinas Casnewydd. Yn ychwanegol, yn gynharach heddiw, gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i drefniant tebyg yn y diwydiant adeiladu, a ddigwyddodd yn Hwb Dwyrain Casnewydd i ganolbwyntio ar fynediad am ddim at hyfforddiant i arwain at y Cerdyn CSE. Yr oedd yr hwb yn llawn o bobl ifanc, oedd yn arwydd cadarnhaol fod pethau ar i fyny ledled y ddinas. Yr oedd y llyfrgell hefyd ar agor yn Hwb Dwyrain Casnewydd, gyda'r academi dysgu yn llawn myfyrwyr 16-18 oed yn gweithio'n galed.

- Diolchodd y Cynghorydd Jeavons i'r Cynghorydd Truman a chyfeiriodd at y gwasanaethau rheng flaen oedd yn parhau i weithio yn ystod y pandemig, a gofynnodd am gadw mewn cof y bobl hynny, yn enwedig y sawl oedd yn byw gyda phobl men perygl o ddal Covid.

- Ategodd y Cynghorydd Harvey y sylwadau a diolchodd i'r Cynghorydd Truman am ei gefnogaeth.

- Diolchodd y Cynghorydd Hughes hefyd i'r Cynghorydd Truman. Fel un o ymddiriedolwyr banc bwyd lleol, yr oedd yn cydnabod cefnogaeth Cyngor Dinas Casnewydd a'r £100,000 a neilltuwyd.

- Dymunodd y Cynghorydd Cockeram y gorau i'r Cynghorydd Truman at y dyfodol. O ran problemau gyda'r gwasanaethau cymdeithasol, trafodwyd profiad gwaith a lleoliadau mewn colegau yng nghyswllt gofal cartref, a hefyd gynnig llefydd i fyfyrwyr prifysgol mewn cartrefi gofal fel profiad gwaith.

**Penderfyniad:**

Nododd y Cabinet gynnwys yr adroddiad a derbyn cyfoesiadau gan y swyddogion fel rhan o'u portffolio.

## 9 Diweddariad ar ôl Pontio'r UE

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad uchod. Er adroddiad diwethaf y Cabinet ym mis Chwefror, yr oedd ansicrwydd byd-eang wedi parhau i effeithio ar fywydau pobl yng Nghasnewydd a Chymru.
Ar 1 Mawrth, cyflwynodd Cyngor Casnewydd gynnig a'i basio yng nghyswllt y sefyllfa bresennol yn Wcráin, a bu undod ar draws y pleidiau mewn ymateb i'r ymosodiad erchyll ar Wcráin a'i phobl. Yr oedd hon yn sefyllfa dorcalonnus i bobl Wcráin, gyda llawer yn gorfod ffoi o'u cartrefi i geisio lloches.
Yr oedd yn achos pryder hefyd i ddinasyddion Wcráin oedd yn byw a gweithio yng Nghasnewydd a mannau eraill yng Nghymru, o ran eu hanwyliaid a'u gwlad.
Yr oedd gan Gasnewydd draddodiad maith ac anrhydeddus o roi lloches i ffoaduriaid, a bydd yn gwneud popeth yn ei gallu i helpu'r sawl a ddioddefodd oherwydd yr ymosodiad hwn.
Hefyd, i ddinasyddion Ewrop a'r byd sydd yn byw yng Nghasnewydd, yr oedd yn bwysig pwysleisio eu bod hwythau hefyd yn drigolion pwysig allai fyw, gweithio a chyfrannu at wneud Casnewydd yn lle amlddiwylliannol i fyw ynddo.
Yr oedd y gwrthdaro yn Wcráin yn un yn unig o sawl sefyllfa ledled y byd oedd yn cael effaith ar gostau byw yng Nghasnewydd a Chymru.
Yr oedd y cynnydd mewn costau ynni, bwyd a thanwydd yn cael effaith ar bob aelwyd, ond yn taro galetaf ar drigolion mwyaf bregus y ddinas.
Yr oedd Llywodraeth Cymru a'r Cyngor yn gwneud popeth yn eu gallu i aelwydydd yn y cyfnod anodd hwn, ac yr oedd gwasanaethau ar gael allai liniaru'r pwysau hyn.
Pasiodd yr Arweinydd a'r Cynghorydd Hughes cynnig yn y Cyngor ar 1 Mawrth, am yr argyfwng cenedlaethol mewn costau byw, i ysgrifennu at y llywodraeth ganolog am weithredu i atal y cynnydd arfaethedig mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol, gostwng TAW ar filiau ynni, a chyflwyno cap prisiau is ar filiau ynni i warchod aelwydydd rhag cynnydd gormodol mewn prisiau.
Byddai Cyngor Casnewydd yn gweinyddu rhyddhad Treth y Cyngor i dai bandiau A i D a rhyddhad ardrethi i fusnesau, yn unol â chynllun rhyddhad ardrethi busnes Llywodraeth Cymru a'n cynllun ein hunain i gefnogi busnesau lleol.
Yr oeddem hefyd yn parhau i gefnogi grwpiau a mudiadau tlodi bwyd trwy ddarparu cyllid a chefnogaeth i ddosbarthu bwyd a chyngor ar ddyledion.
Yr oedd yr adroddiad hefyd yn cydnabod nod mwy eto y gallai'r Cyngor wneud i gefnogi grwpiau difreintiedig a bregus yng Nghasnewydd a bydd y Cyngor yn datblygu ei waith gyda'r trydydd sector a gwasanaethau cyhoeddus eraill i ymdrin â'r pryderon a godwyd gan y trigolion.
Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Dymunai'r Cynghorydd Hughes gydnabod y gefnogaeth a roddodd pobl yng Nghasnewydd i'r Wcrainiaid, ac yr oedd yn falch o fod yn rhan o'r ddinas.

- Derbyniodd y Cynghorydd Harvey neges gan Gyn-Filwyr Casnewydd oedd yn llwytho cyflenwadau ar wagen i'w hanfon i Wcrain. Mynegodd y Cynghorydd Harvey hefyd ei balchder yn y ddinas.

Adfyfyriodd yr Arweinydd ar y sefyllfa, a dymunai atgoffa'r trigolion fod y Cyngor yn eu cefnogi. Yr oedd yr Arweinydd yn falch iawn o'r gymuned Bwylaidd am roi cymorth ar droed. Yr oedd dinasyddion Rwsia hefyd yng Nghasnewydd ac yr oedd y Cyngor yn cydnabod mai gweithred un dyn mewn llywodraeth oedd yn digwydd, a bod croeso i bawb yng nghymuned Casnewydd.

**Penderfyniad:**

Nododd y Cabinet gynnwys yr adroddiad a derbyn cyfoesiadau gan y swyddogion fel rhan o'u portffolio.

10 **Rhaglen Waith**

Dyma'r adroddiad misol rheolaidd ar y rhaglen waith.

Derbyn y rhaglen a gyfoeswyd.

**Penderfyniad:**

Cytunodd y Cabinet ar y Rhaglen Waith.

Daeth y cyfarfod I ben am Time Not Specified